CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, a'i gynhaliwyd Nos Iau, 11fed o Fedi 2025

Yng Nghlwb Chwarae Pwllheli, Efailnewydd am 7.30 yh

Presennol:

Cynghorwyr

Hughie Williams, Rhys Jones, Phil Roberts, Gareth Roberts, Dafydd Llewelyn Williams, Wynne Davies, Einir Lewis, Catherine Hughes, Tesni Jones, Nia Jones, a Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

Ymddiheuriadau

Cynghorydd Anwen Davies (Sirol)

Cadarnhau Cofnodion

Bu i Catherine a Phil gadarnhau bod cofnodion 12fed o Fehefin, 2025 yn gofnod cywir.

Bu i Catherine a Tesni gadarnhau bod cofnodion 11fed o Orffennaf, 2025 yn gofnod cywir.

Bu i Catherine a Tesni gadarnhau bod cofnodion 8fed o Awst, 2025 yn gofnod cywir o'r cyfarfod anffurfiol.

Cyfethol Cynghorydd Newydd – Ardal Buan

Yn ystod ein cyfarfod heno mi fu i ni gyfethol Anne Jones yn Gynghorydd newydd i gynrychioli Ardal Buan.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Huw Elfed Roberts (Cyngor Gwynedd) er mwyn cael cwblhau'r gwaith papur i'w ffurfioli yn y swydd.

Archwiliad – Archwilio Cymru

Nodwyd ein bod wedi pasio'r archwiliad blynyddol drwy law Archwilio Cymru, ac y byddwn yn derbyn yr adroddiad ar anfoneb yn y dyfodol.

Yswiriant Cyngor Cymuned Buan

Cytunwyd i dalu Yswiriant Blynyddol Cyngor Cymuned Buan drwy Zurich – cost 2025/2026 - £214.00.

Yswiriant Cae Chwarae Rhydyclafdy

Cytunwyd i dalu Yswiriant Cae Chwarae Rhydyclafdy drwy Zurich – cost 2025/2026 - £199.51.

Hyfforddiant i Gynghorwyr

Trafodwyd y cyrsiau hyfforddiant a'u cynnigir gan Unllais Cymru. Cytunwyd y byddai Anne Cocker Jones a'r Clerc yn mynychu cwrs o'u dewis. Cytunwyd i'r Clerc wneud trefniadau ar eu rhan.

Cyfarfod Diffibrilwyr

Bu i ni drafod y Cyfarfod Di-ffibrilwyr sy'n cael ei gynnal yn Neuadd Abersoch 17/09/25 a 7 o'r gloch. Cytunodd Rhys Jones ein His-gadeirydd i fynychu'r cyfarfod yma. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Einir Wyn (Abersoch) i'w hysbysu.

Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd yr un Cais Cynllunio o'r newydd wedi codi.

Cais Cynllunio

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA

Nodwyd nad oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn gan yr Adran Gynllunio.

Materion Ariannol

Bu i'r Cynghorwyr dderbyn y datganiadau Banc canlynol – 04/06/25-03/07/25, 04/07/25-03/08/25 a 04/08/25-03/09/25.

Cysoniad banc o ddyddiad :

04/08/2025 – 03/09/2025 - £7,491.12

Cafodd 9 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Rhys Jones â'r Cynghorydd Tesni Jones. Roedd cyfanswm y sieciau yn £3,038.95c.

Siec Rhif 200890	Costau Teithio'r Clerc	£4.68c
Siec Rhif 200891	Hurio Ystafell yn Clwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd	£20.00
Siec Rhif 200898	Ad-daliad i'r Clerc am archebu stampiau	£6.96c
Siec Rhif 200899	Cyflog y Clerc (Mis 6)	£215.00
Siec Rhif 200900	Cyllid a Thollau	£53.80c
Siec Rhif 200901	Yswiriant Blynyddol – Cyngor Cymuned Buan	£214.00
Siec Rhif 200902	Yswiriant Blynyddol – Cae Chwarae Rhydyclafdy	£199.51
Siec Rhif 200903	F Jones ac S Arnott – Torri Gwellt (anfoneb blynyddol)	£2,300.00
Siec Rhif 200904	Geraillt Hughes – Gosod Llechan	£25.00

Diweddariad y Plac i'r Fainc ym Moduan

Nodwyd y Cadeirydd ei fod wedi cael sgwrs gyda MT, erbyn hyn mae MT wedi archebu'r nwyddau ac yn barod i wneud y gwaith.

Cysytllu gyda'r Adran Briffyrdd

- Nodwyd bod tyllau yn y ffordd yn parhau rhwng Nant Pwdin a Llidiart Dŵr, rhwng Rhydyclafdy a Nanhoron.
- Nodwyd bod arwyddion ffordd yn parhau i fod ar Lôn Llyn ym Moduan, ac nid oes neb wedi eu casglu. A yw'r lôn bellach yn agored i allu ei defnyddio ? A oes posib cael diweddariad ?
- Nodwyd bod dŵr yn hel wrth ymyl Giât Uchaf lôn Cefn Mine, a fyddai modd gyrru archwiliwr yno i gael golwg?
- Nodwyd bod "gulleys" wrth ymyl Pant Glas (ar y ffordd rhwng Efailnewydd a Rhydyclafdy) yn llawn, a fyddai modd gyrru archwiliwr yno i gael golwg?

- **<u>Cwyn sydd wedi ei grybwyll ers mis Mehefin 2025</u>**- Trafodwyd mater o ddŵr yn sefyll ar y lôn o flaen Glanrafon, ym Moduan. Mae dŵr sylweddol yn casglu yma pan fydd glaw trwm. Nodwyd bod Glyn Titus (Priffyrdd, Pwllheli) yn ymwybodol o'r dŵr yma, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i'w hysbysu o'r broblem. A fyddai modd rhoi sylw buan i'r gwyn yma, gan yrru archwiliwr yno i gael golwg, a rhoi diweddariad i ni?

<u>Unrhyw Fater Arall</u>

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chlerc Cyngor Cymuned Llannor er mwyn ei holi os oes Cais Cynllunio wedi ei wneud ar gyfer creu maes parcio sylweddol dros y ffordd ar Maes Carafanau Peg & Mallet rhwng y Ffôr a Rhosfawr.

Bu i Wynne Davies grybwyll bod arwyddion ar ochr y ffordd ym Mangor Is-y-coed ac wrth fynd dros Bont Britannia i nodi bod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn yr Ardal, ac yn nodi'r dyddiad. Roedd yn meddwl y byddai'n syniad i ni edrych i mewn i'r mater, a chael rhai or fath ym Moduan. Er mwyn i'r Clerc gael syniad o sut mae'r arwyddion yn edrych, cytunodd Einir i fynd heibio'r arwydd yn Ynys Môn wythnos nesa' er mwyn tynnu llun o'r arwydd. Cytunwyd y Clerc wedyn i gysylltu gyda Chyngor Môn er mwyn gwneud ymholiadau pellach.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – Nos Iau, 9fed Hydref, 2025, 7.30 y.h yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd.